1 Atgofion

Rhwyf am sôn am amser. Pan oedd yna
ddim byd tua trigain i wyth a thrigain
mlynedd yn ol. Adeg dlawd fel yr ydych
i gid yn gwybod. dim Electric, dim
teliphon. dim motors. dim radio. na fordd
wedi ei thario. A bron na ddywedaf dim
pres. Yr adeg yma yr oedd ymfudo mawr
America a Chanada. Rwyf am son am
gymeriadau yr adnabyddais pan oeddwn
yn ifanc iawn. Dwy flwydd a hanner oed
oeddwn, pan ddarfu i ni symud o henborth-
bach i panteinion. yr oedd Moris Ebans Egryn
newydd adeilady dau dy yno. Mae will
gors yn byw ~~yn~~ yno heddiw. Dyma
ardal Gwillym ardydwy. Richiard Jones
pen y bryn. Richiard Owen Tyn y pant. a
Dafydd Jones Cystyllen. Dafydd gwr

2

yn pant yr afal yr oedd yna sipsiwn
yn byw, or enw Dafydd Hughes ac Elin Hughes.
ac wyth o blant. Yn minfordd bach ar draws
y fordd i panteinion yr oedd Dafydd Jones
yn byw ty bach iawn oedd o, dim ond
cegin a siamber. Ar dir Tyn y pant yr oedd
minfordd bach fellyn, perthyn i R. Owen yr
oedd o. ~~Rhia~~ dipin o Rent oedd R. Owen
yr oeddynt yn defnyddio Rent yr adeg hono
os oeddych yn etifeth o rhiw dir, neu yn
byw ar eich tir eich hyn. Dyn mawr Tew
oedd R Owen. bol mawr yn wir i chi yr
oedd fel Gas works a gard aur ar draws
y bol yma. Yr oedd ganddo rhiw ddywediad
yn lle dweyd felltigedig yr oedd yn
felltigwdog fachgen meddau yr oedd yn
dipin o fardd hefyd. Gwr gweddw yn cadw
house ciper pan fedra gael yr oedd o

3

Rhaid yn cofio un house ciper sef
margiad owen mi fuodd efo William Lewis
Glanrheuad wedyn. Yr oedd yn dweud ei
bod yn ferch i Cadwaladr Jones yr olaf i
gael ei grogi yn gwarchar Dolgellau
gorfod iddi fynd i weni i maes y pandy
pan oedd yn ddeg oed. Tenant i R. owen
oedd Dafydd Jones yn Taly 6d y mis neu
Talu bob cwarter dyna yr amser pan oedd
Dafydd yn derbyn ei arian or plwyf. Nid
wyf yn gwybod Pam mae eisiau cofio
un fel Dafydd, dwn i ddim tebig i bwy
oedd o os nag i mi, Un bler hyllabudr
ond yr oedd yn ~~hof~~ o blant, mi fyddau
plant ar ei ol ym ~~bob~~ man fe ddaeth y
Teulu i fyw i Coedyglynggwern o
Cystyllan diwedd y ganrif dwedda
ond welais i neb ond ei chwaer Martha

ychydig amser yn ol sdopiodd car cerand
wrth y ty acw a gwr a gwraig ynddo
a gofynodd y wraig a wyddwn rhywbeth am
DJ Cystyllen dywedais inna fy mod yn ei
adnabod erstawm O ~~meddai~~ yr oedd yn
frawd i nain wyddoch meddai. Petasai
wedi ei weld un waith ni buasai yn
dweud ei fod yn perthyn dim iddi.

oedd yn byw yn y Bermo hen ferch oedd
martha, ond mi fagodd (18) o blant,
ond plant pobl eraill oeddynt ar hynny
yr oedd yn byw Tasa chi yn gweld Martha
un waith mi fuasech yn ei adnabod yn
rhiwle wedyn. Yr oedd Dafydd yn hen pan
ddois i'w adnabod a finau ddim ond 2½ oed
ond byddwn yn cael ei hanes gan fy mam
fe fyddai yn hel grug i wneud ysgubau
ai gwerthu. Un tro wedi bod yn hel grug
a hyny ar ddydd Sul ar Gweinidog
Anibynwyr yn mynd am dro heibio ei dy
a Dafydd yn dwad a baich o rug ar ei gefn
bobol anwyl Dafydd Jones meddai daes
ganddoch chi ddim ofn ir Brenin Mawr eich
Taro i lawr am weithio ar y Syl meddai.
Nac oes syr meddai Dafydd rhiw fân
stwardiad fel y chwi sy'n gwetha o lawer



Er ei bod yn adeg y diwigiad nid oedd
wedi effeithio dim ar Dafydd yr adeg yma
yr oeddych yn siwr o ateb gan Dafydd
pryn bynag oedd o yn gwybod ei beidio
un tro yr oedd Milgi Dafydd Hughes y
potiwr wedi dal ysgyfarnog ar dir
Price Owen Aelybryn ac fe aed a Do Hughes
i llys yn y Bermo ai Twrnai oedd
Dafydd Jones. Y fi biar sgwarnogod
meddai P.O. ac meddai Dafydd fedrwch
chwi ddywedud syr beth yw eich nôd
clust eich swarnogod chi A chafodd
pawb hwyl fawr a dismis the Cas fuodd hi
Clywais R.O. yn dweyd fod ganddo lyfr
siort hand, oi waith ei hun fedra neb
arall ei ddallt ond y fo. yr oedd bob peth
oedd yn digwydd ar lawr dim ond strocs
a dots ni allai ysgrifenu na darllen

Rhoedd Dafydd Hughes y potiwr yn dal pysgod yn y mor gyda rhwyd fawr yroedd ganddo Jul i dynu unpen ir rhwyd a Dafydd Hughes yn y dwr. Ac rhwyf yn cofio i D.J. gael pysgod gan D.H. iw gwneyd yn benog coch yr oedd hynu wrth fy modd, ac yr oedd yna Eneth yr un oed a minau yn y ty nesaf or enw Laura mae yn byw yn Harlech heddiw. An gwaith ni en dau fyddai hel dail iw llosgi i wneyd mwg a D.J. wedi rhoi cortyn drwy lygaid y penog ai hongian yn y mwg. Ond yr oedd gormod o fwg yn mynd i fynu y simdda. Felly cododd D.J. fi i fyny i ben y corn a rhoi careg arno nes llenwi y gegin a mwg a phan ddaeth yn or mamau i chwilio am danom yr oeddem yn ddu fel nigers a corfod i ni fynd yn syth ir Twb



yr oedd D.J. yn hof iawn o fynd i weithdy crydd at Moris Jones. William Davies. a John Paw y clocsiwr. Felly roedd yn cael hanes y drwigiad. Ac am y golauy drwigiad. yr oedd llawer wedi gweld ci yn dod ar hyd y fordd a hwnw yn dan i gid ac yn mynd dros ben y wal yn ymyl Capel Batis i gae Pentre canol. a pawb yn methu ai ddal. Ond penderfynodd Dafydd Jones a William Davies fyned yno y noson hono noson dywyll iawn ond digwyddodd dim byd. Y noson wedyn fe orfeddodd y ddau wrth y wal a dyma'r ci yn dwad o gyfeiriad Ysoldy bella yn ara deg nes cyraedd y capel a rhythrodd D.J. iddo ac aeth yn ddim yn ei ddwylo. Ac fe gafodd rhiw droedigaeth rhyfedd meddai D.J. wrth fy man bore dranoeth

daeth awydd arno i fod yn aelod or
capel Anibynwyr, Ac wrth ei dderbyn
gofynodd y gweinidog iddo am ei brofiad
beth a wnaeth iddo ddod ir Capel. A dyma
DJ yn adrodd stori y ci. Ydach chi yn
meddwl y medrwch ddal i ddwad ir
Capel gofynodd y gweinidog. Wel meddau
DJ yn Egryn yr wyf yn tori cerig rwan
ac felly nid iw y hawdd byw yn ddiwiol
Pan hitiwch amball i garag yn ei phen mi
dorith hithau yn ei thin. Doedd DJ ddim
yn hoffi ymolchi chwaith, Un bore sylwaeth
DJ ir capel a gofynodd fy mam iddo a
oedd yn sal, Mi fym yn lwcus iawn y
bora yma meddau, mi digwyddais edrych
a oedd genyf goler cin ymolchi.



daeth DJ yn wael ac fe wnaed trefniadau
i fynd ac ef ir workhaus i Dolgellau
yr ydym yn mynd a chi i furdd yfory
meddau Ithel Lewis bryn teg wrtho ia
medda DJ os y byddaf ar gael ynte meddai
ond yr oedd DJ wedi mynd cin y bora
Rhwyf yn cofio ei gynhebrwng Huw Jones
Pen y bryn a Ithel Lewis bryn teg oedd yn
gofalu am y cynhebrwng awd ag ef yn
hen hers Coedybachau dyma y cynhebrwng
lleiaf a welais erioed yr oedd tua dusin
o blant y lle wedi dod i waelod y ffordd
wrth Bryn tirion i ddangos parch i hen
frind Arch y plwy oedd iddo pren heb ei
bleinio a dim farnis, dim ond DJ mewn
paent du ar gauad yr arch Huw ac Ithel ar
ben yr hers a Dafydd ac elin Hiws y potiwrs
yn cerdded ar ol y hers, Doedd yno neb i
ddywed ei fod yn frawd i nain

dipin bach o hanes Dafyf ac elin Hiws y Patiws. oedd y byw yn pant yr afal. yr oeddym wedi symyd i fyw i fachgron erbyn hyn, ac yn ymyl mae darn o dir lle byddau sipsiwns yn aros a bydda ni y plant yn cael llawer o hwyl efo nhw bydda mam yn dweyd y byddent yn siwr o fynd a fi fwrdd rhiw ddiwrnod. Rhwyf yn cofio un noson wedi i ni ddod or ysgol i garafan y sipsiwns ddod i lawr Mewn dipin dyma Dafydd Hiws yno, wedi iddo gael hwyl efo dyn mawr tenau, dyma fo yn neidio i mewn ir garafan yr oeddan ni y plant yn ei weld yn ddigywilydd iawn, Codi bore dranoeth meddwl cael gweld y cefylau,, Er ein syndod daedd yno ddim byd y garafan ar cwbwl wedi mynd.



Ond yr oedd Elin Hiws yno yn crio Beth sydd mater Elin Hiws meddwn, Yr hen hogan y garafan yna wedi dwyn D H a mynd ag ef i fwrdd, O mi ddaw yn ol mi fydd wedi neidio allan cin cyraedd y Bermo meddwn. Na ddaw o ddim yn ol eto meddau Elin Hiws. Wedi ei gadael efo (8) o blant, fe aeth y teulu yn ol i Portmadog i fyw yn fuan wedyn. Gwelais D H adeg y rhyfel yn aros yn hwylfa lydan nid gyda Elin ond gyda Romany.

---

Dipin bach o hanes Mary Roberts.
Rhoedd Mari wedi ei geni ai magu yn y Dyffryn Dynes od iawn oedd Mari a gorchestol iawn yn cario wya a cywion ieir i Bermo iw gwerthu oedd ei bywoliaeth. Yr oedd pawb ofn Pechu yn ei herbyn

yr oedd yn debig iawn o ran gwedd i (Ena Sarpels) mi gafodd yr enw (Mari saith) am fod saith cythrel yn mair Macdalena medda nhw. Tagodd ddyn mawr cryf unwaith pan bechodd yn ei herbyn. Rhwyf yn cofio iddi weddi ar (John Franses) pan rhoedd ef yn dreifio Mr Edwards Hafod y bryn, yr oedd ei het silk yn rhy fawr iddo yn dyfod tros ei glystia (Hei John) Sbid ac allan or Het yna mi fu mewn trwbwl mawr yn y Bermo unwaith Plant yn gweidd Mary the sefenth arni fe gafodd afail mewn un, mi rhedodd Plismon yno iw achub, Ond cafodd hwnw ~~yn~~ o dan ei ên nes oedd ar lawr, mi gafodd ei fenio ~~am~~ hynu. Yr oedd yn gallu dynwared pob Peth chwibanu fel aderyn, Rhuo fel Taw-byodd yn canlyn yr ail wedd yn ystymgwern



Ond yr oedd yna ochor arall i mari mi fyddai yn mynd ir capel 3 gwaith ar y syl Rhoedd yn gallu dysgy ei Bibl fe fydda yn adrodd ~~rhwgn~~ (40) a (120) o adnoda yn yr ysgol syl. a Pan y byddai yn dod heibio i hel wya mi fydda yn gofyn i mi ei thrio yn yr adnoda. Mi ganodd lawer iawn o fisig i bobl y Dyffryn yr oedd yn gymwynasgar iawn.

---

Ar ol y diwigiad fe ddaeth (Rosina Davies) a Mrs. Jones Llawrfordd i bregethy i gapel yr anibynwyr ar capel yn llawn gorfod i ni y plant lleiaf fynd ir pulpud ac eistedd ar ymul y pulpud. Ar bobol ar y fordd ac ar ben y wal oddi allan. Ond nid ~~wyf~~ wyf yn cofio dim or bregaeth, Ond anghofia i byth Rosina Davies yn canu,

y Gwr wrth fynon Jacob
eisteddai yno i lawr
Tramwyodd drwy samario
Tramwyed yma 'n nawr
Rhaedd syched yn ei galon
am gael ei hachub hwy
mae syched arno eto
am achub llawer mwy
mwy — mwy —

Terfynaf yn awr gyda hyna o algofion